

Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Mae agendâu'r Cyfarfod Llawn yn cael eu cyhoeddi wythnos cyn pob cyfarfod, ac maent i'w gweld ar [dudalen y Cyfarfod Llawn](#)

Dydd Mawrth 7 Tachwedd 2017

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes: Ein Cymoedd, Ein Dyfodol: Cynllun Cyflawni (45 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant: Cofio ein Lluoedd Arfog – Anrhydeddu Aberthau'r Gorffennol a Chefnogi Cymuned y Lluoedd Arfog (45 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig: Y Diwydiant Bwyd a Diod (30 munud)
- Cynnig i amrywio'r drefn o ystyried Gwelliannau Cyfnod 3 Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru) (5 munud)
- Cynnig i drafod y ddwy eitem ganlynol gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân (15 munud):
 - Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) 2017
 - Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Datganiadau Blynyddol) (Cymru) 2017
- Gorchymyn Ystadegau Swyddogol (Cymru) 2017 (15 munud)
- Dadl: Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru 2016–17 (60 munud)

Dydd Mercher 8 Tachwedd 2017

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg (45 munud)
- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon (45 munud)

Busnes y Cynulliad

- Cwestiynau Amserol (20 munud)
- Datganiadau 90 Eiliad (5 munud)
- Datganiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus: Ymchwiliad i Blant a Phobl Ifanc sydd Wedi Bod Mewn Gofal
- Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)
- Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig: Y Llanw'n Troi? Adroddiad yr ymchwiliad i ddull Llywodraeth Cymru o reoli Ardaloedd Morol Gwarchoddedig (60 munud)
- Dadl Fer – David J Rowlands (Dwyrain De Cymru) (30 munud)

Dydd Mawrth 14 Tachwedd 2017

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Dadl: Mynd i'r Afael â Chamddefnyddio Sylweddau (60 munud)
- Dadl: Adroddiad Blynyddol 2016–17 Comisiynydd y Gymraeg (60 munud)
- Dadl: Cyfnod 3 Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru) (120 munud)

Dydd Mercher 15 Tachwedd 2017

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith (45 munud)
- Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol (45 munud)

Busnes y Cynulliad

- Cwestiynau Amserol (20 munud)
- Datganiadau 90 Eiliad (5 munud)
- Dadl ar adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau: Seilwaith Digidol Cymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig (60 munud)
- Dadl Fer – Neil Hamilton (Canolbarth a Gorllewin Cymru) (30 munud)

Dydd Mawrth 21 Tachwedd 2017

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Dadl: Adolygiad Blynyddol 2016–2017 y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (60 munud)
- Dadl: Cyfnod 4 Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru) (15 munud)
- Dadl: Cyfnod 3 Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) (180 munud)

Dydd Mercher 22 Tachwedd 2017

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig (45 munud)
- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant (45 munud)

Busnes y Cynulliad

- Cwestiynau Amserol (20 munud)
- Datganiadau 90 Eiliad (5 munud)
- Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl Fer – Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru) (30 munud)